

## 1 - Abaty Dinas Basing i Bantasaph 3 milltir/4.6 km

### Map Archwilio OS 265

Gadewch yr Abaty drwy gerdded tuag at yr Hen Ysgol ac yna i'r chwith i fyny Dyffryn Maesglas. Efallai y byddwch eisiau codi copi o'r daflen dywys am y Dyffryn yn y Swyddfa Wybodaeth. Mae hon yn dweud wrthy ch am y gwahanol safleoedd y byddwch yn eu pasio ar eich ffordd. Pan gyrhaeddwch y fan lle'r oedd Arhosfa Santes Gwenffrewi gynt, cymerwch y llwybr troed (y fforch dde) allan o'r dyffryn i'r brif ffordd ac i Ffynnon Gwenffrewi.

Ar ôl ymweld â'r Ffynnon cymerwch y llwybr gyferbyn, heibio i'r maes parcio bychan. Y bryn ar eich ochr chwith yw'r bryn lle gwnaeth Sant Beuno ei wyrth. Mae ffynnon wedi'i chysegru iddo yma. Parhewch i fyny'r llwybr nes bydd yn troi i'r dde i'r fferm. Ar y pwynt yma, ewch i'r chwith i fyny'r allt tuag at gornel dde'r olaf o'r tai newydd. Cerddwch heibio i'r tŷ yma at y ffordd.

Croeswch y ffordd yn ofalus i fynd i fyny Teras Brynffynnon gan basio'r tai ar eich ochr chwith i lwybr gwyrdd. Cymerwch y llwybr yma i fyny'r allt, dros gamfa, i fynd at giât. Croeswch y trac ac ewch dros gamfa. Parhewch i fyny'r allt gyda'r gwrych ar eich ochr chwith. Anwybyddwch y ddwy gamfa sy'n mynd i ffwrdd i'r chwith ac ewch i'r gamfa o'ch blaen. Croeswch drosti a mynd i'r dde i gerdded ar ochr dde'r llinell drydan at gamfa arall. Croeswch dros honno a mynd yn lletraws i'r chwith i fyny'r allt gan ddilyn y llinell drydan at gamfa yng nghornel uchaf y cae.

Croeswch dros hon a cherdded gyda'r ffens ar eich ochr dde i gamfa giât. Ewch drwy neu dros hon a cherdded yn syth ymlaen. Mae'r llwybr yn mynd dros dop y bryn, man gwych i weld golygfa hyfryd. Ewch ar letraws i lawr ar ochr chwith y bwthyn. Croeswch dros y gamfa i'r trac a throi i'r dde i fyny'r allt. Ewch drwy'r giât a mynd tua'r chwith i fynd uwch ben yr hen chwarel. Anelwch yn syth am y gamfa a'r giât o'ch blaen.

Ewch drwy'r giât neu dros y gamfa ac yna'n uniongyrchol ymlaen. Ar y wal o amgylch y goedwig, trowch i'r chwith i lawr yr allt at giât mochyn. Ewch drwyddi ac yna dros gamfa garreg i Fynwent Mynachlog Pantasaph.